

Hawdd ei ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymru fwy cyfartal

**Gwneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus
yn meddwl am sut i leihau tlodi ac
anghyfartaledd**

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



**Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: 'Dogfen Ymgynghori Llywodraeth
Cymru. Cymru Fwy Cyfartal - Dechrau'r Dyletswydd Cymdeithasol
Economaidd.'**

Tachwedd 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.



Cyfeiriad: Adran Cymunedau

Cyfarwyddiaeth Cymunedau a Threchu
Tlodi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ



E-bost: Socio-economicDuty@gov.wales



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Am beth mae'r ddogfen yma yn sôn.....	4
Beth mae'r Gweinidog a'r Prif Chwip yn ei ddweud.....	5
Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud.....	7
1. Am beth mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl.....	8
2. Pa gyrff cyhoeddus ddylai gael eu heffeithio?.....	10
3. Beth ddylai cyrff cyhoeddus ei wneud.....	11
4. Sut mae hyn yn berthnasol i ddeddfau a rheolau eraill.....	12
Geiriau anodd.....	15

Am beth mae'r ddogfen yma yn sôn



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am wneud yn siŵr bod **cyrff cyhoeddus** yn meddwl am sut i leihau **tlodi** ac anghyfartaledd pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau mawr.



Cyrff cyhoeddus ydy gwasanaethau sydd yn cael eu rhedeg ar gyfer y cyhoedd. Er enghraifft GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol neu'r gwasanaeth tân.



Tlodi ydy pan nad oes gan bobl ddigon o arian i fyw yn dda. A dydyn nhw ddim yn gallu cael gwasanaethau da. Fel gofal iechyd ac addysg.



Mae hyn yn cael ei alw yn **ddyletswydd cymdeithasol economaidd**.



Mae'r cwestiynau ar yr ail ddogfen o'r enw: **Ffurflen ymateb**.



Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl erbyn **17 Ionawr 2020** os gwelwch yn dda

Beth mae'r Gweinidog a'r Prif Chwip yn ei ddweud



Pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd fe fydd yna lawer o newidiadau. Mae pobl yn galw hyn yn **Brexit**.



Un o'r pethau rydyn ni'n poeni amdan o fe ydy pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Mae pobl yn aml yn cael eu trin yn annheg pan maen nhw'n byw mewn **tlodi**.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl sydd yn byw mewn **tlodi** yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.



Rydyn ni eisiau gweld bod **cyrff cyhoeddus** sydd yn darparu gwasanaethau pwysig yn meddwl yn ofalus am hyn.



Rydyn ni eisiau ei gwneud yn gyfraith bod ganddyn nhw **ddyletswydd** i feddwl am anghenion y bobl yma.



Mae gan hyn lawer i'w wneud gyda deddf o'r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010**.



Mae'n bwysig hefyd i ddeddf Cymru o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2011**.



Rydyn ni eisiau gwybod pa [gyrff cyhoeddus](#) rydych chi'n meddwl ddylai fod yn ufudd i'r dyletswydd newydd.



Jane Hutt Aelod Cynulliad
Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud



Mae deddf o'r enw **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn siarad am drin pobl yn gyfartal.



Mae'r ddeddf yma yn dweud bod rhaid i **gyrff cyhoeddus** wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Ac yn gweithio i leihau **tlodi**.



Rhaid iddyn nhw feddwl am anghenion pawb pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau. A sut y mae'r penderfyniadau hynny yn gallu effeithio arny'n nhw.

1. Am beth mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl



Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud bod rhaid i **gyrff cyhoeddus** feddwl am:

- Sut maen nhw'n gallu helpu i wella bywyd i bobl. A lleihau anghyfartaledd a **thlodi** pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau mawr. Penderfyniadau mawr ydy pethau fel:



- Beth sydd fwyaf pwysig iddyn nhw.
- Eu cynlluniau mawr.
- Eu rheolau.
- Eu nodau.
- Ar beth maen nhw'n gwario eu harian.



- Sut mae pobl yn gallu cael gwahanol brofiadau mewn bywyd oherwydd **tlodi**. Er enghraifft:
 - Iechyd a llesiant
 - Addysg
 - Tai
 - Trosedd.

- Y ffyrdd mae **tlodi** yn gallu effeithio ar bobl. Er enghraifft:



- Efallai nad ydy pobl yn gallu prynnu pethau sylfaenol maen nhw eu hangen.
- Efallai nad ydy pobl yn gallu cael gwasanaethau yn hawdd fel gwasanaethau iechyd ac addysg.
- Efallai bod pobl yn ei chael hi'n fwy anodd i gael swydd dda..

2. Pa gyrff cyhoeddus ddylai gael eu heffeithio?

Rydyn ni'n meddwl y dylai **cyrff cyhoeddus** sydd yn rhedeg gwasanaethau fel rhain orfod bod yn ufudd i'r dyletswydd yma:



- Gweinidogion Cymru.



- Awdurdodau Lleol.



- GIG, byrddau iechyd a gwasanaethau iechyd eraill yng Nghymru.



- Tân ac Achub.



- Parciau Cenedlaethol.



- Awdurdod Refeniw Cymru. Maen nhw'n delio â threthi yng Nghymru.

3. Beth ddylai cyrff cyhoeddus ei wneud



Rydyn ni eisiau rhoi rhywfaint o arweiniad i **gyrff cyhoeddus** am beth mae angen iddyn nhw ei wneud.



Rydyn ni eisiau gweithio gyda **chyrff cyhoeddus** i gael yr arweiniad yn iawn.



Dyma'r camau rydyn ni'n meddwl y bydd angen i **gyrff cyhoeddus** eu cymryd:

- Meddwl am pa benderfyniadau mawr mae rhaid iddyn nhw eu gwneud a phryd.



- Meddwl am yr effeithiau y mae eu penderfyniadau nhw yn gallu eu cael ar bobl sydd yn byw mewn **tlodi**.




- Dangos sut maen nhw'n meddwl am anghenion y bobl yma.



- Edrych ar y gwaith maen nhw'n ei wneud.

4. Sut mae hyn yn berthnasol i ddeddfau a rheolau eraill

Mae hyn yn berthnasol i ddeddfau eraill.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud yn siŵr bod **cyrff cyhoeddus** yn meddwl am beth mae pobl ei angen.



Mae'r Ddeddf hefyd yn meddwl am ddyfodol ein plant.



Mae'n siarad llawer am beth mae llesiant yn ei feddwl.



Ac mae'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal. Nawr ac yn y dyfodol.



Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod **cyrff cyhoeddus** yn trin pobl yn gyfartal.



Deddfau am Hawliau Dynol

Mae deddfau am hawliau dynol eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg.



Eu bod nhw'n cael eu trin yn deg mewn pethau fel gwaith ac addysg.



Eu bod nhw'n byw mewn amodau da.



Mae'r deddfau hefyd yn siarad am yr hawl i ryddid y dylai pawb ei gael.



Mae'r holl deddfau yma yn effeithio ar **gyrff cyhoeddus** a'r rheolau mae rhaid iddyn nhw eu dilyn.



Rydyn ni'n meddwl bod yna gysylltiad rhwng y deddfau yma a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal pan maen nhw'n byw mewn **tlodi**.



Oherwydd mae byw mewn **tlodi** yn cael effaith ddrwg ar fywydau pobl mewn llawer o wahanol ffyrdd.



Rydyn ni eisiau gwybod sut mae **cyrff cyhoeddus** yn meddwl am sut mae'r deddfau gwahanol yma yn perthyn i'w gilydd.



Mae hyn yn gallu gwneud adrodd yn fwy hawdd.

Geiriau anodd

Cyrff cyhoeddus

Cyrff cyhoeddus ydy gwasanaethau sydd yn cael eu rhedeg ar gyfer y cyhoedd. Er enghraifft GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol neu'r gwasanaeth tân.

Tlodi

Tlodi ydy pan nad oes gan bobl ddigon o arian i fyw yn dda. A dydyn nhw ddim yn gallu cael gwasanaethau da. Fel gofal iechyd ac addysg.